RHIFYN ISSUE 59

20.12.23

Llais Llantrisant

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Diwrnod olaf Tymor yr Hydref eleni fydd 19.12.25 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn ar 06.01.26.

Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.

The last day of the Autumn Term this year is on 19.12.25 at 3:30 pm. The children return for the Spring Term on 06.01.26. Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

HMS 2025-2026
INSET 2025-2026

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.

This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

01.09.25	05.01.26	27.03.26
13.04.26	20.07.26	+1

DIOLCH
THANK YOU

Ar ran pawb yn yr ysgol, hoffem ddiolch i bawb am yr anrhegion hael a'r cardiau unwaith eto eleni. Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r gwyliau Nadolig ac edrychwn ymlaen at glywed straeon Nadolig y plant yn y flwyddyn newydd!

On behalf of everyone at school, we would like to thank you for the generous gifts and cards once again this year. We hope you enjoy the Christmas break and we look forward to hearing the children's Christmas stories in the new year!





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

19.12.25 - Diwrnod ola'r tymor - gorffen am 3:30 yp
Last day of term - 3:30 pm finish

05.01.26 - Diwrnod HMS i'r staff
Staff INSET day

06.01.26 - Plant yn dychwelyd - Tymor y Gwanwyn 2026
Children return - Spring Term 2026

13.02.26 - Plant yn gorffen - Hanner Tymor Chwefror
Children finish – February Half Term

27.03.26 - Plant yn gorffen – Gwyliau'r Pasg
Children finish – Easter holidays

DIOLCH A NADOLIG LLAWEN
THANK YOU AND MERRY CHRISTMAS

Wrth i ni gyrraedd diwedd y tymor hwn, hoffwn fynegi fy niolchgarwch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus. Mae eich cydweithrediad wedi bod yn amhrisiadwy wrth ein helpu i ddarparu'r gorau i'n disgyblion.

I'n disgyblion a'n staff: diolch am eich gwaith caled, eich ymroddiad, a'ch gwydnwch drwy gydol y tymor. Mae eich ymdrechion wedi gwneud y cyfnod hwn yn llwyddiannus ac yn werth chweil i'n cymuned Ysgol. Rydym yn falch o bopeth rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd.

Wrth i ni agosáu at y gwyliau, gobeithio y cewch chi i gyd seibiant haeddiannol, yn llawn llawenydd, heddwch, ac amser gyda'r rhai agosaf atoch. Ar ran pawb yn yr ysgol, dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi ac edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl ar ddydd Mawrth, Ionawr 6ed ar gyfer tymor cyffrous arall.

As we reach the end of this term, I would like to take this opportunity to express my sincere gratitude for your continued support and cooperation. This has been invaluable in helping us provide the very best for our pupils.

To our pupils and staff: thank you for your hard work, dedication, and resilience throughout the term. Your efforts have made this a successful and rewarding time for our school community. We are proud of everything we have achieved together.

As we approach the festive season, I hope you enjoy a well-deserved break filled with joy, peace and time with loved ones. On behalf of everyone at school, we wish you a Merry Christmas and a Happy New Year and look forward to welcoming you back on Tuesday, January 6th for another exciting term ahead.



DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN 2025
CHILDREN IN NEED DAY 2025

Diolch yn fawr iawn i'r rhai sydd wedi'n helpu i godi £520 at yr elusen eleni!

Many thanks to those who helped us raise £520 towards the charity this year!





LLONGYFARCHIADAU!
CONGRATULATIONS!

Llongyfarchiadau mawr i BF ac OK (Dosbarth 8) ar ennill cystadlaethau Llywodraeth Cymru eleni i ddylunio cardiau Nadolig i Eluned Morgan a Lynne Neagle.

Bydd cerdyn BF yn cael ei anfon ar Arweinwyr ar draws y byd gyda cherdyn OK yn cael ei ddewis fel cerdyn Nadolig y Gweinidog Addysg ar gyfer 2025. Newyddion bendigedig!

Many congratulations to BF ac OK (Class 8) on their winning designs for Eluned Morgan and Lynne Neagle's Christmas cards this year.

BF's card will be sent to all world Leaders as the First Minister's Christmas card for 2025 with OK's card being chosen as the Education Minister's 2025 Christmas card. Fantastic news!





Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.com**

PERFFORMIADAU'R NADOLIG
CHRISTMAS PERFORMANCES

Llongyfarchiadau mawr i bob plentyn am eu holl waith caled wrth iddynt baratoi a pherfformio yn eu cyngherddau Nadolig eleni. Diolch hefyd i'r holl staff am eu gwaith diflino i sicrhau fod pob plentyn yn cael cyfle i berfformio ar lwyfan yr ysgol. Diolch yn fawr iawn i'n holl gefnogwyr am ddod i'r ysgol i wylio'r sioeau ac am eich cyfraniadau!

Many congratulations to all of the children for their hard work in preparing and performing their Christmas concerts this year. Also, thank you to the staff for their tireless work to ensure all pupils had the chance to perform on stage. Many thanks to all of our supporters for coming along to school to see the shows and for your contributions!























Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**